Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Wrth i ni agosáu at ddiwedd tymor hir a phrysur hoffwn ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth barhaus i'ch plant a'r Ysgol. Mae'r tymor hwn wedi gweld llawer o uchafbwyntiau gan gynnwys y Cyngherddau Nadolig gwych gyda'n myfyrwyr hŷn yn perfformio yn Theatr Llwyn a'n disgyblion iau yn perfformio mor wych am ddwy noson yn Eglwys Sant Myllin.

Mae'r tymor hwn hefyd wedi gweld lansiad ein gwasanaethau dathlu wythnosol ar lein 'Gwasanaeth y Teulu'. Pob wythnos byddwn yn clywed newyddion da am ddisgyblion o bob oedran a digwyddiadau o fewn cymuned ein hysgol. Cofiwch mae croeso i chi wylio'r gwasanaethau hyn drwy ddilyn y dolennau ar ap yr ysgol. Dyma'r ddolen ar gyfer gwasanaeth yr wythnos hon: **Gwasanaeth y Teulu 18-12-23.**

Yn ddiweddar rydym wedi lansio ein **prosbectws ysgol newydd** sy'n cynnwys manylion a lluniau o'r ystod lawn o weithgareddau sydd ar gael i'n disgyblion. Rwyf wedi cynnwys y ddolen i'r prosbectws isod fel y gallwch chi a'ch teulu ei fwynhau. - https://llanfyllin.powys.sch.uk/cy/ysgol-llanfyllin-prospectus/

A gaf i fanteisio ar y cyfle hwn i'ch atgoffa am ein **Polisi Gwisg Ysgol** a phwysigrwydd gwisg ysgol i'r ysgol,
Mae gwisg ysgol yn:

- darparu ymdeimlad o hunaniaeth, cymuned a chydlyniad o fewn yr ysgol
- cefnogi ymddygiad cadarnhaol a disgyblaeth ysgol
- sicrhau fod disgyblion yn gwisgo'n addas ar gyfer gweithgaredd dysgu
- dileu pwysau cyfoedion i wisgo mewn ffasiwn arbennig
- galluogi disgyblion o bob cefndir i rannu hunaniaeth gyffredin sy'n cofleidio eu gofynion penodol
- helpu i leihau anghydraddoldeb rhwng disgyblion a helpu lleihau rhai sbardunau ar gyfer bwlio
- bod o fudd i bolisïau diogelu a phresenoldeb drwy helpu i nodi triwantiaid
- helpu adnabod dieithriaid ar dir yr ysgol
- cefnogi a hyrwyddo ethos yr ysgol

Unwaith eto hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus a gwerthfawr. Peidiwch ag oedi cyn cysylltu os oes gennych unrhyw bryderon y gallwn eich cynorthwyo gyda. Cofiwch bydd y tymor newydd yn cychwyn Dydd Mawrth Ionawr 9fed 2024. Gwiriwch ap yr ysgol am unrhyw ddiweddariadau pellach dros gyfnod y Nadolig.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno yn dda i chi ar yr adeg arbennig yma o'r flwyddyn a gobeithio y daw 2024 ag iechyd a hapusrwydd i chi. Mwynhewch wyliau dedwydd, heddychlon, tawel a diogel.

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda** i chi oll gan bawb yn Ysgol Llanfyllin

Dymuniadau gorau.

Mr Dewi Owen
Pennaeth.

**Cysylltwch / Contact**

**Llanfyllin, Powys SY22 5BJ**
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

**Tîm Arweinyddiaeth / Leadership Team**

**Pennaeth / Headteacher:**
Mr Dewi Owen
**Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:**
Mr Llŷr Thomas

**Penaethiaid Cynorthwyol / Assistant Headteachers**
Mrs Jenna Graham
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

**Rheolwr Busnes/Business Manager**
Mrs Sarah Hunter

**CADY/ALNCO**
Mrs Rhiannon Molyneux